

Datganiad o'r Rhesymau - Cau Stryd Ysgol – Dryden Road Penarth

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cynnig gwneud y Gorchymyn ar gyfer Dryden Road er mwyn hyrwyddo'r prosiect "Strydoedd Ysgol" sy'n ceisio mynd i'r afael â'r materion a achosir gan draffig ysgolion ar adegau prysur (dechrau/diwedd y diwrnod ysgol).

Mae lefelau traffig uchel y tu allan i ysgolion yn creu tagfeydd, yn peryglu ansawdd aer, yn cyflwyno problem o ran diogelwch ar y ffyrdd, yn ogystal â rhwystro mynediad gan drigolion a'r gwasanaethau brys. Bydd tynnu traffig cerbydau o ffyrdd yng nghyffiniau mynedfeydd ysgol ar adegau prysur yn helpu i wneud teithiau plant i'r ysgol yn fwy diogel a bydd yn gwneud teithio llesol i'r ysgol (beicio a cherdded) yn fwy apelgar.

Prif nod y cynllun yw gwella diogelwch ar y ffyrdd o safbwynt cerddwyr a seiclwyr - gan helpu felly i hyrwyddo newid i ddulliau teithio mwy cynaliadwy a llesol.

Bydd y ffordd ar gau yn ystod amseroedd agor a chau'r ysgol, ond bydd mynediad yn dal ar gael i drigolion a cherbydau brys a ganiateir. Er y bydd gofyn i drigolion y ffyrdd sydd â chyfyngiadau osgoi mynd i mewn a gadael yn ystod y cyfnodau cau, bydd trigolion yn gallu gwneud cais am drwydded i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd na ellir eu hosgoi.

Rhesymau

Mae'r Cyngor o'r farn ei bod yn fanteisiol gwneud y Gorchymyn: -

- i. I osgoi perygl i bersonau neu draffig arall sy'n defnyddio'r ffordd neu unrhyw ffyrdd eraill neu osgoi'r tebygolrwydd y gallai perygl o'r fath godi.
- ii. I hwyluso tramwy ar y ffordd neu unrhyw ffordd arall ar gyfer unrhyw ddsbarth traffig (gan gynnwys cerddwyr); ac
- iii. Er rheoli ansawdd yr aer yn unol â pharagraffau (a) i (c) is-adran (1) Adran 87 Deddf yr Amgylchedd 1995 (ansawdd aer).